**Date**/Dyddiad: 26.03.20
**Ask for**/Gofynnwch am:
**Telephone**/Rhif ffôn
**Your Ref**/Eich Cyf:
**My Ref**/Fy Nghyf:
**e-mail**/e-bost

The Vale of Glamorgan Council
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111

www.valeofglamorgan.gov.uk

Annwyl gydweithwyr,

Rydym yn gwerthfawrogi ar yr adeg ddigyffelyb hon efallai fod gan weithwyr gwestiynau am feysydd sy'n ymwneud â'u telerau ac amodau megis cyflog a gwyliau blynyddol.

Rydym wedi ceisio egluro'r agweddau hyn isod a fydd, gobeithio, o gymorth i chi ac, yn bwysicach fyth, yn rhoi sicrwydd i chi ar yr adeg anodd hon. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth barhaus ac yn credu'n gryf, drwy gydweithio, y byddwn yn y sefyllfa orau i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau.

**1. Taliadau i Staff**

Yn ychwanegol at yr ohebiaeth ddiweddar a anfonodd Rob Thomas y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn perthynas â gweithio gartref, ymbellhau cymdeithasol a hunanynysu hoffem eich sicrhau y bydd gweithwyr Cyngor y Fro yn parhau i gael eu taliad arferol yn ystod y cyfnod hwn. Ar gyfer y staff rhan amser sy'n gweithio oriau ychwanegol yn rheolaidd, yna telir cyflog cyfartalog iddynt yn ystod y cyfnod hwn ac nid oriau eu contract. Bydd angen cwblhau taflenni amser o hyd. O ran y staff sy'n cael eu cyflogi ar gontractau yn ystod y tymor, os oes gofyn i chi helpu yn y gwaith yn ystod cyfnodau o wyliau ysgol sydd eisoes wedi'u cyhoeddi, byddwch yn cael taliadau ychwanegol i'ch digolledu am weithio.

**2. Adrodd am Absenoldeb a Hunanynysu**

Mae'n rhaid i bob gweithiwr sy'n datblygu symptomau Coronafeirws (Covid-19), neu sy'n byw mewn cartref lle mae rhywun ar yr aelwyd yn datblygu symptomau hunanynysu yn unol â'r canllawiau cyfredol. Caiff y rhain eu cyhoeddi'n rheolaidd ar Staffnet+. 7 diwrnod yw'r cyfnod ynysu i weithwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n rhaid i gyflogeion, waeth pa gategori y maent yn perthyn iddo, adrodd i'w rheolwr eu bod yn hunanynysu, a bydd yntau'n cofnodi hynny drwy system Staffnet. Fel uchod, bydd cyflogeion sy'n hunanynysu neu'r rhai sydd â symptomau Coronafeirws ac sy'n dilyn y weithdrefn adrodd absenoldeb arferol yn parhau i gael eu cyflog arferol ac ni fydd yr absenoldeb yn cael ei gyfrif tuag at unrhyw rai o'r sbardunau absenoldeb safonol.

**3. Gweithio oriau hyblyg, cronni oriau a Gweithio Oriau Sefydlog**

Oherwydd y sefyllfa unigryw hon, penderfynwyd hefyd y bydd y cynllun Oriau Hyblyg presennol, y cynllun cronni oriau ac unrhyw drefniadau gweithio oriau sefydlog yn cael eu hatal, ond gall hyn hefyd gynnwys rotâu sefydlog pan fo angen mwy o hyblygrwydd. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gweithwyr nad ydynt yn weithwyr gwasanaethau rheng flaen uniongyrchol, mewn trafodaeth â'u rheolwr, yn rhydd i drefnu eu horiau gwaith yn erbyn eu horiau cytundebol a ddylai, unwaith eto, gynorthwyo gydag unrhyw gyfrifoldebau gofal plant neu ofalu posibl.

Fodd bynnag, os gofynnir iddynt helpu i ddarparu gwasanaethau allweddol, dylai cyflogeion nodi y caiff yr oriau gwaith eu gosod gan uwch staff y gyfarwyddiaeth honno, er mwyn sicrhau bod y rotâu mwyaf effeithlon ac effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi'n cymunedau sy'n agored i niwed. Caiff hyn ei drafod yn llawn gyda'r gweithiwr ar y dechrau a gallai ymwneud â gweithio gartref neu bresenoldeb corfforol mewn gweithle, megis gweithio oriau anghymdeithasol, gan gynnwys ar benwythnosau a nosweithiau, a gallai'r gwaith hwn gael blaenoriaeth dros ddyletswyddau arferol y gweithiwr a'i oriau gwaith.

Mewn perthynas ag unrhyw oriau hyblyg/diwrnod gwaith hyblyg neu gronni oriau cyfredol, caiff yr amseroedd a'r diwrnodau hyn eu bancio a'u hadfer unwaith y bydd gweithrediadau arferol y Cyngor yn dychwelyd.

**4. Gwyliau Blynyddol**

Rydym yn sylweddoli y gall bod adegau pan fydd gweithwyr wedi trefnu gwyliau blynyddol nad ydynt am eu cymryd mwyach (oherwydd na allant deithio i ymweld â ffrindiau neu deulu neu pan fo trefniadau teithio presennol wedi'u canslo). Efallai y bydd adegau hefyd lle y gallwn ofyn am ganslo gwyliau yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu adnoddau digonol a mawr eu hangen mewn meysydd allweddol.

Cewch eich sicrhau yn y ddau achos uchod na fydd gweithiwr ar ei golled ac ni fydd y gwyliau blynyddol yn cael eu 'colli'. Yn dibynnu ar y gofynion gweithredol, bydd cyfarwyddiaethau'n trafod gyda'u gweithwyr beth yw'r ffordd orau o reoli'r sefyllfa hon. Gall hyn gynnwys galluogi cyflogeion i gario mwy o hawl i wyliau blynyddol i flwyddyn wyliau yn y dyfodol.

**9. Staff Asiantaeth**

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad ein staff asiantaeth yn y Fro, felly bydd staff asiantaeth sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaus am 3 mis neu fwy yn cael eu trin yn yr un ffordd â'n staff dros dro neu barhaol a byddant yn parhau i gael eu talu. Er hynny, bydd staff asiantaeth yn cael eu hadleoli lle bynnag y bo'n ymarferol i ddarparu cymorth i wasanaethau allweddol a bydd yn ofynnol i staff asiantaeth fod yn hyblyg yn eu hagwedd er mwyn sicrhau bod gennym adnoddau priodol a mawr eu hangen lle y gellir eu defnyddio yn y ffordd orau.

Rydym yn deall y bydd y cyfnod sydd i ddod yn amharu'n fawr ar eich aelwyd a'ch teulu ac, fel eich cyflogwr, byddwn mor hyblyg ag y gallwn i'ch cefnogi drwy'r cyfnod anodd hwn. Rydym yn gwybod y gallwn ddibynnu arnoch chi, fel cydweithwyr gwerthfawr, i gefnogi'r cyngor a'n cymunedau yn ystod y misoedd nesaf.

Gan fod y sefyllfa o gwmpas Covid-19 yn parhau i newid yn gyflym iawn, bydd rhagor o ddiweddariadau'n cael eu cyhoeddi pan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi eu trafod gyda'ch rheolwr llinell.

Cofion cynnes,

**Tracy Dickinson**
**Pennarth Adnoddau Dynol**